

THOMAS, JOSHUA (1719-1797), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, a hanesydd

Enw: Joshua Thomas

Dyddiad geni: 1719

Dyddiad marw: 1797

Plentyn: Timothy Thomas

Rhiant: Jane Thomas (née Hughes)

Rhiant: Thomas Morgan Thomas

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr, a hanesydd

Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: Thomas Richards

Ganwyd yn T Hen, Caer, 22 Chwefror 1719, er i'r teulu symud ymhen tair blynedd i Esgair Ithri yng Nghwm Pedol. Nid oes fawr wybodaeth am ei gyfnod cynnar hyd nes iddo yn 1738 fyned i Henffordd yn brentis sidanydd gyda'i ewythr [Simon Thomas](#), awdur *Hanes y Byd a'r Amseroedd*. Nid oedd Bedyddwyr yn y dref honno, a gorfu i Joshua Thomas gerdded cyn belled â Llanllieni, ac yno y bedyddiwyd ef ym Mai 1740. Dychwelodd i Gymru yn 1743, dechrau pregethu, a myned i gymanfa Cilfowyr, y gymanfa gyntaf iddo fod ynddi erioed. Yn 1746 priododd ferch o Lanbedr Pont Steffan yn Sir Aberteifi, a pherthynas go agos i [David Davis](#), Castell Hywel, a'r un flwyddyn sefydlodd yn y Gelli, sir Frycheiniog, cafodd ei ordeinio ym Maes-y-berllan, gan bregethu a chadw ysgol; pregethai yn ei dro yn Olchon, Capel-y-ffin, a Lloneigon, mewn ardaloedd llawn rhamant i Fedyddwyr; croesholid hen bobl yn fanwl gan Joshua, a chlustfeiniau am bob traddodiad a ddaethai i lawr o gyfnod y tadau. Yn 1753 cafodd alwad oddi wrth Fedyddwyr Llanllieni i ddod yn weinidog iddynt; dechreuodd ar ei waith yno yn niwedd 1754, â daliodd yn fugail arnynt am 43 mlynedd, ac yn un o brif golofnau cymanfa Seisnig y Midlands; ni pheidiodd, ar hyd y blynyddoedd, â bod yn fawr ei barch yng nghymanfa Cymru ac yn rym mawr y tu cefn i genhadaeth y Gogledd o 1776 ymlaen. Yr oedd eisoes, cyn sefydlu yn Llanllieni, wedi anturio i'r wasg drwy drosi yn Gymraeg weithiau Saesneg yn amddiffyn credo'r Bedyddwyr; ymddangosodd dau gyfieithiad o fewn 1751 yn unig, a chyfieithiad o lyfr arall yn 1767; a dangosodd ei fod yn Fedyddiwr neilltuol Galfnaid drwy gyhoeddi, cyfieithiad eto, *Tystiolaeth y Credadyn* yn 1757, a dwyn allan yn 1775 nodiadau Bedyddiwr Calfnaid ar bregeth gan [Abel Francis](#), Bedyddiwr Arminaid, a draddodwyd yn 1732 (*Llyfryddiaeth y Cymry*, 568).

Eithr nid ei lafur fel cyfieithydd a wnaeth Joshua Thomas yn enwog, ond ei gyfrol ar *Hanes y Bedyddwyr* a gyhoeddwyd yn 1778. Yr oedd wedi dechrau casglu'r defnyddiau yn 1745, cyn myned i'r Gelli; dechrau ar yr *Hanes* o ddifrif yn 1752; ac yn 1776 bu ar daith arbennig yn y De er mwyn cwpláu ei ymchwiliadau. Ar ymddangosiad y gyfrol gwelwyd ar unwaith fod hanesydd o nodwedd newydd wedi codi - cwrtais, bonheddig, pendant iawn gyda sylfeini cred, ond araf a phetrus gyda manylion; ei drefn yn hawdd ei beirniadu oherwydd yr ailadrodd parhaus a'r mynych draws-gyfeiriadau; hyd heddiw disgwylir yn ofer am fynegai i'r gwaith. Er iddo goleddu rhai efengylau pur ansafadwy am Fedyddwyr y goror, a dyfynnu llawer o hen lyfrau llawysgrif na ellir eu profi oherwydd eu bod ar goll, safonau barnwr a gwyddonydd oedd ei safonau;

mynnodd, hyd y gallai, gael gwybodaeth o America am ddechreuadau Bedyddwyr Cymru; a mynnodd ddilyn rhawd syniadau Calfin ac Armin ymhlith Bedyddwyr, a'r modd yr aeth rhai eglwysi yn gaeth eu cymun, eraill yn rhydd. Yn 1780 cyhoeddodd rai 'diwygiadau' ar yr *Hanes*, ac ychydig gyfnewidiadau, 18 tudalen; yn 1795 cyhoeddwyd ei *History of the Welsh Association, 1650-1790*. Yn araf raddol aeth sôn am gyfraniad Joshua Thomas at hanes ei enwad ar led y wlad; yn 1803 dyfynnir o'r *Hanes* gan Samuel Palmer yn nhydedd gyfrol y *Nonconformist's Memorial*, ac yn 1811 cyfeiria Joseph Ivimey yn barchus at y gwaith yng nghyfrol gyntaf ei *History of English Baptists*. Cyn 1795, cyhoeddodd *Remarks* go siarp ar waith g r o Sais yn beirniadu Bedyddwyr 1788; yn 1791 gyfieithiad o'r newydd' o *Gyffes Ffydd* Lundain, 1689; yn 1794 cyfieithodd lyfr gan Robert Hall ar athrawiaeth y Drindod. A gadawodd ar ei ôl yn Llanllieni, mewn llawysgrif, ddwy gyfrol ar hanes yr eglwys honno ac ar hanes cynnar Bedyddwyr Olchon, heb sôn am y llawysgrifau pwysig a gafodd lety yng ngholeg y Bedyddwyr ym Mryste. Ond ei gymwynas fawr i'r byd oedd *Hanes* clasurol 1778, gwaith Cristion mawr a Bedyddiwr goleuedig. Bu farw 25 Awst 1797.

TIMOTHY THOMAS (1753 - 1827), gweinidog

Mab Joshua Thomas. Bu am 45 mlynedd yn weinidog ar eglwys Devonshire Square yn Llundain, ac yn r digon pwysig ymhlith Bedyddwyr y wlad i fod (yn un o ddau) i rannu'r arian a ddeuai iddynt o'r 'Regium Donum.' Yng ngholeg Bryste y cafodd ei addysg ddiwinyddol, ac yr oedd ei wraig gyntaf yn chwaer i [Caleb Evans](#), un o benaethiaid y sefydliad hwnnw. Y tad a roddodd y siars i'r mab yn y cwrdd sefydlu (Medi 1781), a'i destun 1 Tim. vi, 20. Yn 1796 dechreuodd Timothy Thomas gadw ysgol yn Islington - nid academi, ond ysgol i ddysgu'r elfennau. Nid oedd, fel ei dad, yn chwannog o fyned i'r wasg: ni chafodd y Dr. Whitley (*Bapt. Bibliog.*, ii, 23) gip ond ar un llyfryn o'i eiddo, cyhoeddedig yn 1790, a hwnnw heb fod o ryw bwys mawr.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran (1778) (arg. 1778), passim; (arg. 1885), passim

Llawysgrifau Shankland yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor (Coleg y Gogledd), 131 (52-4), 148 (1-11), 159-60

Thomas Lewis, [Joshua Thomas a Llanllieni](#), *Seren Gomer*, 1883, 94-104

Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru, 1935, 1-24

W. T. Whitley, *A Baptist Bibliography* (1917-22), 1-11, passim (pur debyg mai [Joshua Thomas](#), ficer Llanbister, oedd awdur y ddau lyfryn y cyfeirir atynt yn ii, 214)

Notable Welshmen (1700-1900) (1908)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Joshua Thomas](#)

Gweithiau

Matthew Henry, Joshua Thomas (cyfieithydd), *Golwg ar Destament Newydd ein Harglwydd a'n Iachawdwr Iesu Grist: sef crynhoad o swm a sylwedd y pethau hynny a gynnwysir ym mhob llyfr, ac ym mhob pennod wedi ei gasglu allan o esboniadau helaeth y diweddar a'r Parchedig Mr. Mathew Henry, gweinidog yr efengyl. At yr hwn y chwanegwyd tabl a'r fesur cerdd yn ol yr egwyddor A.B.C. i helpu'r côf ac i wneuthur i fynu goncordans bychan i'r Testament newydd* (Caerfyrddin 1728)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [24951256](#)

Wikidata: [Q13129363](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

